| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26 Medi 2018** |
| **Aelodau / Swyddogion Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh** |
| **Teitl:** | **Proses y Gyllideb 2019/20** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu trosolwg o'r broses i osod y gyllideb ar gyfer 2019/20.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl trosolwg mewn perthynas â phroses cyllideb y Cyngor. Egluro'r broses sydd ar y gweill a'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig allweddol sy'n ei lywio.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y broses a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

4. **Manylion yr Adroddiad**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, cynhaliwyd pedwar sesiwn gydag aelodau etholedig yn amlinellu'r sefyllfa ariannol tymor canolig, fel y nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Roedd y sesiwn mwyaf diweddar (Mehefin) yn amlygu rhai o'r prif bwyntiau canlynol:

- Setliadau cyllideb negyddol mewn termau real am y saith mlynedd diwethaf ac mewn termau ariannol ar gyfer pedwar allan o'r saith mlynedd ddiwethaf hynny.
- Arbedion a mesurau eraill dros yr un cyfnod yn gyfanswm o £35miliwn
- Rhwng 2009 a 2016, ar ôl tynnu gwariant Addysg a Budd-Dal Tai, roedd gwariant cyffredinol y Cyngor wedi gostwng 23%.
- Mae codiadau Treth y Cyngor ers 2013 wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru
- Dadansoddiad ac eglurhad o'r rhagdybiaethau cynllunio achos canolog a phwysau allweddol
- Bwlch amcangyfrifedig o £6.4miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2019/20

Yn y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd dulliau amrywiol ar gyfer gosod cyllideb, o gyllidebu cwbl gynhwysfawr yn sail i'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i dargedau effeithiolrwydd cyfartal ar draws gwasanaethau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cefnogwyd y ddau ddull gan arbedion ariannu corfforaethol a'r defnydd gofalus o arian. Fodd bynnag, o fewn cyd-destun gostyngiadau cyllid parhaus, pwysau costau allanol

a galw cynyddol mewn meysydd allweddol, mae’r broses ar gyfer gosod cyllidebau’r cyngor a phennu’r strategaeth ariannol tymor canolig wedi’i adolygu.

Ym mis Ionawr 2018, cafodd bwrdd mewnol ei sefydlu:

- Diffinio a darparu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig at ddiwedd 2022/23
- Sicrhau y gellir gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn ariannol o fewn y rhaglen
- Cefnogi darpariaeth Blaenoriaethau Corfforaethol
- Darparu dull rheoledig i fod yn gyngor llai, sy’n cael ei redeg yn dda.

Mae Cylch Gorchwyl y bwrdd ynghlwm fel Atodiad 1. Mewn misoedd diweddar, penderfynwyd cyfeirio ato fel Bwrdd Ail-lunio’r Cyngor.

Mae’n bwysig nodi nad yw’r Bwrdd yn gorff gwneud penderfyniadau. Bydd unrhyw gynigion sy’n codi o waith y Bwrdd yn dilyn llwybrau cymeradwyo presennol ac angen cydymffurfio â gofynion asesu lles ac ymgynghori presennol, ac ati.

Mae’r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ystyried gofynion uniongyrchol i ddarparu cyllideb yn flynyddol ond yng nghyd-destun barn strategol ehangach. Yn ogystal, mae’r Prif Weithredwr ac Uwch Dim Arweinyddiaeth y Cyngor wedi datblygu set o egwyddorion i gefnogi’r broses cyllideb strategol. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen Strategaeth Ariannol Tymor Canolig nesaf a gyhoeddir ond mae’n cynnwys proses ar sail tystiolaeth a chanlyniad gyda phwyslais ar y Cyngor yn cymryd camau mor rhagweithiol a mentrus â phosibl, i helpu i gyfyngu effaith toriadau cyllido ar flaenoriaethau a gwasanaethau rheng flaen.

Roedd y dull a ddefnyddiwyd i ddechrau’r broses ar gyfer 2019/20 i ddechrau yn cynnwys gwasanaethau’n modelu effaith toriadau ariannol. Mae hyn, ynghyd â dadansoddiad manwl o’r cyllidebau gwasanaeth ac ystyriaeth strategol gan y Bwrdd, wedi arwain at nifer o gynigion yn cael eu datblygu mewn dull graddol. Mae’r camu, sydd hyd yma wedi cynnwys pedwar, yn adlewyrchu amseriad y gwaith a gwblhawyd gan y Bwrdd hyd yma – e.e. gweithio drwy wahanol feysydd gwasanaeth neu themâu corfforaethol.

Mae’r Bwrdd hyd yma wedi nodi cynigion i’w datblygu, ar draws holl feysydd gwasanaeth, sy’n gyfanswm o dros £4miliwn. Mae gwasanaethau bellach yn datblygu’r cynigion hyn fel y gellir bwrw ymlaen â’r rai sy’n angenrheidiol fel rhan o gyllideb 2019/20.

Mae’r Bwrdd hefyd yn ystyried rhagdybiaethau allweddol sy’n sail i’r MTFP. Mae’r rhagdybiaethau a’r risgiau yn newid drwy’r flwyddyn. Mae newidiadau sylweddol wedi eu nodi ac os bydd angen bydd y rhagdybiaethau MTFP yn cael eu diweddaru,: cadarnhaol neu negyddol. Mae effaith cyffredinol newidiadau, gan gynnwys arbedion rhagdybiedig wedi eu nodi fel a ganlyn:

| | £k |
|---|---|
| **Bwlch yn y gyllideb agoriadol** | **6,472** |
| Newidiadau effaith cadarnhaol | (7,505) |

| | |
|---|---|
| Newidiadau effaith negyddol | 3,094 |
| **Bwlch diweddaraf yn y gyllideb** | **2,061** |

Bydd camau pellach yn parhau nes bydd cynigion digonol wedi eu nodi i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb.

Y brif elfen i'w chadarnhau yw'r lefel o setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Y rhagdybiaeth gynllunio yw gostyngiad o -1% (£1.4miliwn) mewn termau ariannol. Fodd bynnag, gyda rhagdybiaethau eraill yn yr MTFP, mae effaith gostyngiad o'r fath mewn setliad yn arwain at fwlch yn y gyllideb o 5%. Mae hyn oherwydd bod y pwysau ar y cyngor ar gyfer cyllid y flwyddyn nesaf dros £8 miliwn. Mae'r pwysau allan o reolaeth y Cyngor yn bennaf ac yn cynnwys dyfarniadau tâl, pwysau galw, demograffi a chwyddiant.

Prif ddyddiadau yn y broses ar gyfer nodi fel a ganlyn:

- Cyllideb Amlinellol Drafft Llywodraeth Cymru — 2 Hydref
- Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru — 9 Hydref
- Cyllideb Ddrafft Fanwl Llywodraeth Cymru — 23 Hydref
- Cyllideb y DU (dyddiad i'w gadarnhau) — 21 Tachwedd
- Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru — 18 Rhagfyr
- Setliad Terfynol Llywodraeth Leol — 19 Rhagfyr

Os yw'r setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Hydref yn wahanol i'r rhagdybiaeth cynllunio, yna bydd y Bwrdd yn ystyried opsiynau pellach. Mae'n ddoeth ystyried bod y prif ffigwr a gyhoeddwyd ar 9 Hydref, yn arbennig os yw'n well na'r rhagdybiaeth cynllunio a gyhoeddwyd yn dod gyda chafeat neu'n well cydnabod rhai o'r costau na ellir eu hosgoi sy'n rhaid i'r cyngor eu cyllido (dyfarniadau tâl er enghraifft). Nid yw setliadau drafft blaenorol wedi rhoi llawer o fanylder ynglŷn â grantiau penodol, felly mae hyn hefyd yn rywbeth i'w ystyried.

Yn y cyfarfod briffio diwethaf ar y gyllideb i aelodau etholedig ym mis Mehefin, awgrymwyd bod sesiwn arall yn cael ei drefnu yn dilyn y setliad dros dro a gyhoeddwyd. Bydd y dyddiad arfaethedig ar gyfer y sesiwn hwn yn cael ei gadarnhau'n fuan. Bydd sesiynau pellach yn cael eu trefnu os bydd angen.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yn seiliedig ar ragdybiaethau presennol, mae'r cyngor yn wynebu bwlch posibl yn y gyllideb o dros £6miliwn ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. Mae proses y gyllideb yn cynnwys asesiad i hysbysu pa un a yw cynigion y gyllideb unigol angen asesiad o'r effaith. Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gwneud y penderfyniad hwn i ddechrau gydag archwiliad pellach gan y Bwrdd Cyllideb i sicrhau cysondeb a phriodoldeb.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Adroddiadau rheolaidd i TGC, UDA a Briffio'r Cabinet. Cynhaliwyd cyfarfod briffio ar y gyllideb i holl aelodau etholedig ym mis Mehefin. Bydd gweithdai neu gyfarfodydd briffio pellach yn cael eu cynnal yn yr hydref. Ymgynghorir ag Undebau Llafur drwy'r Cydgyfarfodydd Corfforaethol. Bydd gwybodaeth gyffredinol ar wefan y Cyngor yn cefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd a bydd yna ymgysylltu penodol lle bo'n briodol neu angen ar gynigion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Roedd angen dull diwygiedig ar gyfer proses y gyllideb i gydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu'r cyngor. Mae'n rhaid i'r angen ar gyfer gosod cyllideb gytbwys yn flynyddol fod o fewn cyfeiriad strategol ehangach a'r Bwrdd newydd fydd yn gallu darparu hwn.

Ffactorau allanol sy'n gyfrifol am y pwysau ariannol a wynebir gan y cyngor yn bennaf. Er bod yr ansicrwydd ynglŷn â lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn yn broblem o safbwynt cynllunio ariannol, gobeithio y bydd yna le i gydnabod graddfa'r pwysau sy'n wynebu'r cynghorau yn y setliad ariannol neu 2019/20 a thu hwnt.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd mewn ymateb i setliad ariannol.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adr ân 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.